Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Treganna
# Heol y Feddygfa
# Treganna
# CF11 8DG

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Treganna

Mae Ysgol Gymraeg Treganna yn ysgol benodedig Gymraeg sydd wedi'i lleoli yng ngorllewin Dinas Caerdydd. Mae 680 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 96 oed meithrin. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 20 dosbarth, gan gynnwys dau ddosbarth meithrin.

Tros dreigl tair blynedd, mae tua 5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn llawer yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae ychydig o ddisgyblion yr ysgol yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae tua 53% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac mae 8% o gefndir lleiafrifol ethnig. Ychydig iawn sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol iddynt. Mae'r ysgol wedi adnabod 10% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n llawer is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 1997 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo Cymreictod a datblygiad personol, emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r ddarpariaeth yn gyfoethog, yn seiliedig ar syniadau'r disgyblion ac yn cynnig cyfleoedd effeithiol iddynt ddatblygu eu medrau creadigol ynghyd â'r ddawn i ddatrys problemau 'go iawn' yn gyson. Mae'r disgyblion hynny sy'n aelodau o'r pwyllgorau a chynghorau plant amrywiol yn dangos aeddfedrwydd ymhell uwchlaw'r disgwyl wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus â'u cyfoedion gan ddangos parch a chwrteisi tuag atynt. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ddysgwyr hyderus a galluog sy'n ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi. Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan y staff yn arbennig o dda ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion.

Mae'r pennaeth a'i dîm o arweinwyr yn darparu arweiniad clir i waith yr ysgol, gan rannu eu gweledigaeth yn llwyddiannus ag eraill. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn cyfrannu'n werthfawr at hyn trwy arwain cymunedau dysgu o fewn yr ysgol ac agweddau penodol o'u gwaith.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Rhannu arferion da yr addysgu ar draws y cyfnod sylfaen

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag effaith llais y disgybl ar fywyd a gwaith yr ysgol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cryf o'u man cychwyn. Maent yn cymhwyso eu medrau meddwl a datrys problemau yn llwyddiannus ar draws ystod o feysydd dysgu trwy amrywiaeth o brofiadau dysgu pwrpasol.

Mae medrau siarad a gwrando bron pob disgybl yn dda iawn. Mae disgyblion y dosbarth meithrin yn datblygu medrau llafar yn gynnar ar ôl cychwyn yn y dosbarth. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda ac yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio geirfa estynedig wrth esbonio eu tasgau yn glir ac yn gynyddol aeddfed wrth drafod eu stori am Jac ar Goeden Ffa, er enghraifft. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn fyrlymus a chyda chywirdeb da iawn yn y Gymraeg. Maent yn ymateb yn aeddfed mewn gwaith pâr, grwpiau bychain ac mewn trafodaethau dosbarth cyfan, er enghraifft wrth graffu ar briodweddau gwahanol arlunwyr Cymreig a holi cwestiynau am gyfansoddiad y llun.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl a chywir gan ddatgymalu geiriau anghyfarwydd yn effeithiol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn hyderus. Maent yn talu sylw gofalus i atalnodi ac yn newid goslef llais er mwyn creu effaith wrth ddarllen gwahanol gymeriadau mewn nofel. Maent yn cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau a defnyddio'r wybodaeth i gyfoethogi eu gwaith neu wrth ymateb i dasgau penodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn defnyddio technegau fel llithr ddarllen yn effeithiol er mwyn dod o hyd i wybodaeth allweddol o'r testun. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos pleser gwirioneddol yn eu darllen ac yn mwynhau trafod y cynnwys a'u hoff awduron.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n llwyddiannus. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn dechrau creu llythrennau a chyfateb synau a llythrennau yn gynnar. Ym Mlwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n gynyddol hyderus gan ddefnyddio cystrawennau cynyddol gymhleth yn hyderus, ac yn atalnodi'n gywir. Mae'r disgyblion sy'n fwy abl yn gwneud defnydd llwyddiannus o gymariaethau ac ansoddeiriau er mwyn cyfoethogi eu gwaith. Mae enghreifftiau da, lle maen nhw wedi gwneud hyn, yn cynnwys dyddiadur oes Fictoria yn Saesneg ac erthygl ar gyfer papur Treialon Treganna yn y Gymraeg.

Ar draws y cyfnod sylfaen, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Maent yn cymhwyso eu medrau'n llwyddiannus i ddatrys problemau mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn rhoi newid arian hyd at 50c yn y 'ganolfan arddio' a'r 'siop flodau', cyfri'r nifer cywir o hadau ar goeden Jac, a chyfri fesul 5 wrth ddatrys problemau arian. Yng nghyfnod allweddol 2 mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhif, gan

adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn trafod gwahanol ffyrdd i gyfrifo problemau lluosi hir a rhannu hir yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn cymhwyso eu strategaethau rhifedd yn effeithiol wrth ddatrys tasgau yn seiliedig ar dymereddau eithafol mewn gwahanol leoliadau ac wrth gynllunio lloches Anderson ar gyfer yr ardal allanol.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn arddangos medrau da wrth ddefnyddio cyfarpar TGCh i gefnogi'u dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyfrifiaduron llechen i recordio'u cyfoedion yn perfformio stori 'Jac a'r goeden ffa' a chyfathrebu gydag ysgol arall trwy gynadleddau fideo i drafod hoff fandiau pop disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n gadarn ar eu medrau ac yn eu defnyddio'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio taenlenni a fformiwlâu i drefnu data'n effeithiol a chreu cyflwyniadau amlgyfrwng a ffilmiau byr i gyflwyno'u gwaith i ddisgrifio, er enghraifft sut i blannu hadau neu sut i ddenu twristiaid i Gymru. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn cymhwyso'u medrau'n llwyddiannus trwy ddefnyddio ystod o apiau a meddalwedd i greu cyflwyniadau effeithiol, er enghraifft i greu ffilm cynflas ym Mlwyddyn 5 i hysbysu'r 'Blaid Pobl Berffaith'.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu creadigrwydd yn llwyddiannus iawn o'r cychwyn. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth meithrin yn datblygu eu medrau celfyddydol cynnar wrth adeiladu ffrwythau lliwgar o flociau adeiladu bach wrth ymateb i stori'r Lindys llwglyd iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn hyderus wrth ymgymryd â phrosiectau creadigol llwyddiannus ac yn mwynhau'r cyfleoedd i fod yn greadigol, er enghraifft wrth i ddisgyblion y dosbarth derbyn greu ac actio cymeriadau newydd fel rhan o'r prosiect creadigol 'Y Ditectif Doli'.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae llais y disgybl yn gryfder arbennig ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae aelodau'r pwyllgorau a chynghorau plant amrywiol yn dangos aeddfedrwydd ymhell uwchlaw'r disgwyl wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau. Maent yn ymfalchïo'n fawr yn yr hyn y maent yn ei gyflawni i wella'r amgylchedd a chefnogi lles eraill, er enghraifft drwy gwtogi ar y defnydd o blastig fel rhan o'r ymgyrch "Drastig ar Blastig". Yn ogystal, mae'r arweinwyr digidol yn cyflwyno sesiynau ar sut i ddefnyddio rhaglenni ac apiau amrywiol i ddisgyblion, rhieni a'r henoed o fewn y gymuned yn llwyddiannus iawn. Mae'r disgyblion hyn hefyd wedi manteisio ar gyfle i ymweld â chwmni yswiriant cenedlaethol er mwyn darganfod sut mae diwydiant yn defnyddio TGCh yn y gweithle. O ganlyniad, maent yn ymwybodol o bwysigrwydd eu rôl fel arweinwyr digidol wrth iddynt gefnogi eu cyfoedion ac oedolion i feithrin medrau TGCh effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae cyfraniad disgyblion wrth benderfynu ar eu tasgau yn nodwedd gref iawn o'r ddarpariaeth. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Trwy gynnal "Diwrnod Darganfod" tymhorol, mae disgyblion yn dangos gallu cynyddol i gydgynllunio a mynegi barn am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymrwymo'n llwyddiannus iawn i'w gwaith, gan arddangos balchder a mwynhad. Enghraifft dda iawn o hyn yw cynllunio diweddar gan ddisgyblion ar y thema "Ein Byd" lle maent wedi trefnu diwrnod rhyngwladol i ddathlu arferion, celfyddyd a thraddodiadau gwledydd eraill.

Mae gan bron pob un disgybl ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ardderchog o fanteision byw yn iach. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn ymwybodol iawn bod bwyta ffrwythau ffres ac yfed dŵr yn rheolaidd yn cadw'r corff yn iach. Mae aelodau'r grŵp garddio a choginio yn cwrdd yn wythnosol i dyfu ystod eang o ffrwythau a llysiau ac i drefnu "caffi pop-up" i rieni er mwyn eu hannog i goginio prydau iach iddynt. Yn ogystal â deall pwysigrwydd bwyta'n iach, mae gan y disgyblion hŷn ddealltwriaeth gadarn bod gwneud ymarfer corff yn rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu ffitrwydd, iechyd a lles corfforol. Enghraifft nodedig o hyn yw parodrwydd disgyblion i gyfranogi'n frwdfrydig yn y clybiau chwaraeon amrywiol yn rheolaidd.

Ar draws yr ystod oed a gallu, mae bron pob disgybl yn arddangos gwydnwch a dyfalbarhad wrth fentro ac arbrofi gyda strategaethau dysgu a gweithdrefnau newydd. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae disgyblion Blwyddyn 5 wedi cydweithio'n llwyddiannus iawn wrth gynllunio ar gyfer goroesi trychineb fel rhan o'u prosiect 'Diwedd y Byd'. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ddysgwyr hyderus a galluog. Maent yn defnyddio'u medrau meddwl yn llwyddiannus i ddatrys problemau ac yn dyfalbarhau'n hyderus iawn gyda'u gweithgareddau. Maent yn gwneud dewisiadau synhwyrol a doeth ynglŷn â lefel eu tasgau, gan adnabod pwysigrwydd dethol heriau sy'n addas ar eu cyfer. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesegol, gwybodus a hyderus trwy gymryd rhan yn yr ystod eang o brofiadau a gyflwynir iddynt. O ganlyniad, mae gan y disgyblion hŷn wybodaeth dda iawn am ystod o faterion cyfoes fel y tanau diweddar yn eglwys gadeiriol Notre Dame ac ar ucheldir Blaenau Ffestiniog.

Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac maent yn teimlo'n hapus a diogel mewn ethos hynod ofalgar a chynhwysol. Mae bron pob disgybl yn awyddus i fynychu'r ysgol ac yn dangos parodrwydd, brwdfrydedd a dyfalbarhad eithriadol tuag at eu gwaith. Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf yn cymharu'n dda iawn gydag ysgolion tebyg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd presenoldeb cyson ac yn datgan yn hyderus effaith gadarnhaol hyn ar eu dysgu.

Mae bron pob un disgybl yn lleisio'u pryderon yn hyderus. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r bocs becso ac "emojis" teimladau er mwyn rhannu gofidiau gyda'r oedolion sy'n gofalu amdanynt. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn tawelu'n gyflym yn dilyn bwrlwm amser egwyl, er enghraifft, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymdawelu fel sesiynau meddylgarwch "cŵl wedi cinio". Mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn o sut i fanteisio ar ddarpariaeth flaengar yr ysgol i hyrwyddo eu lles eu hunain, er enghraifft trwy ymweld â'r "tipi tawel", sy'n hafan glud iddynt pan fyddant yn teimlo'n isel eu hysbryd neu angen amser i feddwl.

Mae ymddygiad bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn dda iawn. Maent yn ymwneud â'i gilydd yn gwbl naturiol a rhwydd ac yn dangos parch ac empathi tuag at gyfoedion sy'n wynebu heriau cymdeithasol ac emosiynol. Mae bron pob un yn hynod gwrtais a chroesawgar, ac yn dangos parch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. O fewn eu cymunedau dysgu, mae'r disgyblion hŷn yn dangos gofal arbennig tuag at y disgyblion iau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r cod ymddygiad a'r systemau gwobrwyo amrywiol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol a chyffrous i'r disgyblion, sy'n diwallu eu diddordebau a'u hanghenion yn effeithiol. Maent yn barod iawn i arbrofi a mentro wrth gynllunio darpariaeth gyfoes, eang a chyffrous sy'n seiliedig ar y cwricwlwm i Gymru. Trwy gynnwys syniadau'r disgyblion yn y broses gynllunio, mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd dysgu buddiol iddynt, sy'n eu sbarduno a'u hysgogi i gymryd cyfrifoldeb aeddfed am eu dysgu eu hunain. Mae profiadau dysgu diddorol fel prosiectau creadigol celfyddydol yn cynnig her a sbardun cyffrous iddynt. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu ystod eang o fedrau trwy ddatrys problemau go iawn, yn ogystal â hybu eu hannibyniaeth a'u hunanhyder yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw prosiect y 'Ditectif Doli' yn y dosbarth derbyn sydd wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar fedrau creadigol a llafar y disgyblion.

Yn gyffredinol, mae llawer o athrawon y cyfnod sylfaen yn dangos ymwybyddiaeth dda o egwyddorion y cyfnod hwn ac maent yn ysgogi disgyblion i ddarganfod a dysgu'n annibynnol o'r cychwyn. Maent yn cynllunio cydbwysedd effeithiol o weithgareddau o dan arweiniad staff ynghyd â chyfleoedd diddorol i ddisgyblion weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan. Fodd bynnag, nid yw hwn yn gyson ar draws y dosbarthiadau ac nid yw'r ardaloedd dysgu na'r ddarpariaeth barhaus bob tro wedi eu sefydlu'n ddigon cadarn.

Mae gan ran fwyaf y staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac mae gan bob un ohonynt berthynas waith lwyddiannus gyda nhw. Maent yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes, dda ac maent yn defnyddio'r wybodaeth yn gelfydd wrth gynllunio gwersi diddorol a phrofiadau dysgu cyfoethog. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn ysgogol ac yn cyfrannu'n werthfawr at ddysgu llwyddiannus. Maent yn amrywio'u dulliau addysgu yn effeithiol er mwyn gwneud y dysgu yn hwyliog a diddorol i'r disgyblion, er enghraifft trwy gymysgu bwyd a'i wasgu trwy hosan i ddangos y system dreulio. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn sicrhau cyflymder effeithiol i'w gwersi a sesiynau dysgu ac yn annog y disgyblion i gydweithio â'i gilydd i gwblhau tasgau a datrys problemau go iawn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymrwymiad ac ymroddiad y disgyblion i'w gwaith yn ogystal â meithrin eu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf yr athrawon a chynorthwywyr dysgu yn adnabod anghenion eu disgyblion yn dda. Maent yn teilwra gweithgareddau dosbarth pwrpasol i fodloni anghenion disgyblion o bob gallu. Yn ogystal, maent yn annog y disgyblion i weithio'n unigol, mewn parau neu fel rhan o grŵp, i ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau yn llwyddiannus mewn ystod o wahanol sefyllfaoedd.

Mae bron pob un o'r staff yn modelu iaith safonol yn llwyddiannus ac yn manteisio'n dda ar gyfleoedd gwerthfawr i wella medrau llafar y disgyblion. Mae hyn yn cael effaith fuddiol iawn ar eu safonau llafar. Maent yn defnyddio holi yn effeithiol i atgyfnerthu ac ymestyn dealltwriaeth y disgyblion ymhellach.

Mae adborth llafar athrawon a chynorthwywyr yn effeithiol ac yn cynnig sylwadau defnyddiol ar lawr y dosbarth sy'n galluogi disgyblion i wella'u gwaith. Yn gyffredinol, mae adborth ysgrifenedig athrawon yn briodol ac yn sicrhau ei fod yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda maent yn gwneud a sut i wella. Mae gan ran fwyaf y

disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r polisi marcio ac maent yn ei ddefnyddio i wirio'u gwaith yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith cynhwysfawr sy'n sicrhau cysondeb a pharhad yn y medrau a phrofiadau dysgu a gyflwynir o flwyddyn i flwyddyn. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae egwyddorion y cwricwlwm newydd i Gymru ar waith a darperir tasgau a heriau o safon uchel i'r disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol a'u chwilfrydedd yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cyfoethog i'w disgyblion, sy'n rhoi pwyslais cryf ar hanes a diwylliant Cymru. Mae'n gwneud defnydd effeithiol iawn o ymwelwyr i gefnogi'r cwricwlwm yn llwyddiannus ac i atgyfnerthu balchder y disgyblion yn eu Cymreictod, a'u hymwybyddiaeth o'u diwylliant ac am Gymry enwog y gorffennol a'r presennol. Er enghraifft, gwahoddwyd cyn gapten pêl-droed merched Cymru i'r ysgol i drafod pwysigrwydd dyfalbarhad a gwydnwch. Mae'r disgyblion yn cystadlu'n llwyddiannus mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cenedlaethol fel cystadlaethau'r Urdd a pherfformiadau eraill. Mae hyn yn nodwedd gref o fywyd a gwaith yr ysgol ac yn gymorth i fagu hyder ac ehangu gorwelion y disgyblion yn effeithiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan yr ysgol yn arbennig o dda ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel, gofalgar a hynod gynhwysol ar gyfer pob disgybl. Mae'r berthynas waith sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn gadarnhaol iawn. Hyn sydd wrth wraidd cymuned hynod ofalgar a chynhwysol yr ysgol hon. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn arbennig o dda, yn ymateb i'w hanghenion dysgu yn gynnar iawn, ac yn darparu lefelau cymorth o ansawdd uchel i ofalu am eu lles meddyliol, corfforol ac emosiynol. Mae'r sesiynau cofrestru dyddiol yn effeithiol iawn ac yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a'u bod yn barod i ddysgu.

Mae gan yr ysgol systemau cynhwysfawr ac effeithiol iawn i olrhain a monitro cynnydd, lles ac ymddygiad disgyblion. O ganlyniad, mae'r staff yn cynllunio a darparu cefnogaeth effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r cymorthyddion yn gweithio'n arbennig o dda o dan arweiniad yr athrawon a'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol i weithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth pwrpasol o safon uchel iawn. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol clir, sy'n cynnwys targedau penodol, mesuradwy a heriol. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth eang o asiantaethau cefnogi lleol a chenedlaethol wrth gynllunio darpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu cynnydd a'u lles. Mae grwpiau anogaeth trefnus yn darparu sesiynau hynod effeithiol a sensitif i ddisgyblion sy'n agored i niwed drafod eu teimladau ar adegau anodd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a diwylliannol y disgyblion yn gryfder mawr ar draws yr ysgol. Mae traddodiad gwych o gystadlu mewn

eisteddfodau lleol a chenedlaethol yr Urdd, perfformio i'r gymuned leol a chymryd rhan mewn cyngherddau yn bodoli ers nifer o flynyddoedd. Gwneir defnydd gwerthfawr o ymwelwyr i ehangu profiadau celfyddydol a thechnegol y disgyblion, er enghraifft wrth iddynt gydweithio â phrifysgol leol a chwmni adeiladu i enwi strydoedd ar ystâd dai cyfagos, a'r enwau wedi seilio ar hanes yr ardal. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfoethogi profiadau disgyblion yn hynod effeithiol, yn arwain at safonau uchel yn eu medrau creadigol, yn codi eu hunanhyder ac yn cyfoethogi eu hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth Gymreig yn llwyddiannus iawn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus trwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli symbylus ar eu cyfer. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd yr ysgol. Mae hyn i'w weld yn glir yn y ffordd dyner y mae'r ysgol yn cynnig arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion er mwyn meithrin ymddygiad da. Mae ymddygiad cyfeillgar disgyblion tuag at ei gilydd yn dystiolaeth o lwyddiant y cymorth gofalgar hwn.

Mae'r ysgol yn darparu nifer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithgar mewn gwneud penderfyniadau, ac ymgymryd â rolau arwain. Mae'n rhoi pwyslais mawr ar ddatblygu dysgwyr sy'n ddinasyddion cyfrifol a chydwybodol sy'n cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill ac yn codi arian at elusennau yn rheolaidd.

Mae gan yr ysgol berthynas werthfawr gyda rhieni. Mae'n cynnig ystod dda iawn o gyfleoedd i rieni ddod i wybod am y gwaith y mae eu plant yn ei wneud yn yr ysgol. Trwy fynychu nosweithiau cwricwlaidd a chyfarfodydd unigol gydag athrawon, maent yn cael cyfleoedd gwerthfawr i drafod cynnydd a thargedau datblygiad eu plant. Mae cylchlythyr wythnosol yn dangos holl weithgareddau'r ysgol yn llwyddiannus iawn. Mae staff yn trefnu sesiynau defnyddiol i rieni weithio ochr yn ochr â'u plant ar weithgareddau fel diwrnodau dathlu gwahanol ddiwylliannau. Yn ogystal, cynhelir gweithdai awtistiaeth yn llwyddiannus iawn i addysgu rhieni am wahanol ffyrdd y gallant gefnogi eu plant gartref.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ynghyd â sicrhau bod disgyblion yn deall sut i aros yn ddiogel. Gwneir defnydd effeithiol o dir yr ysgol a threfnir ystod eang o ymweliadau i hybu ffitrwydd. Yn ogystal â hyn, gwahoddir pobl i ymweld â'r ysgol i annog y disgyblion i ymgymryd â gweithgareddau ymarferol yn rheolaidd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sydd wedi ei seilio'n gadarn ar ddatblygu lles disgyblion a chynnal a chodi safonau. Mae strwythurau rheolaethol wedi eu gwreiddio'n gadarn ac mae aelodau gweithgar y tîm arwain yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol wedi ei threfnu'n dair cymuned ddysgu sy'n sicrhau bod y disgyblion yn dod i adnabod eu cymheiriaid yn dda, ac yn cael profiad o fod mewn cymuned hylaw o fewn yr ysgol. Mae'r holl staff yn rhannu'r weledigaeth o gadw gwerthoedd bugeiliol 'yr ysgol fechan yn y ddinas fawr' yn llwyddiannus iawn.

O dan arweiniad cadarn y pennaeth, y dirprwy bennaeth ac aelodau’r tîm arwain, mae gan y staff ymwybyddiaeth dda o safonau a pherfformiad yr ysgol. Mae arweinwyr y cymunedau dysgu yn cyflawni eu rolau yn hynod gydwybodol, ac yn cydweithio’n effeithiol i sicrhau cysondeb ym mhrofiadau’r disgyblion ar draws yr ysgol. Maent yn craffu ar gynnydd disgyblion yn fanwl, ac yn sicrhau bod blaenoriaethau gwella’r ysgol yn derbyn sylw parhaus.

Mae’r llywodraethwyr yn gorff gweithgar ac mae ganddynt wybodaeth fanwl a chyfredol am gyflawniad a lles disgyblion. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd o’r bwrdd llawn ac is-bwyllgorau ac yn cyfrannu’n llwyddiannus at osod trywydd datblygiad ar gyfer yr ysgol. Mae aelodau’r corff yn cyfarfod gydag arweinwyr yr ysgol yn rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol er mwyn craffu ar berfformiad. Maent yn cydweithio’n fwriadus gyda rheolwr swyddfa’r ysgol ac aelodau’r tîm arwain er mwyn rheoli’r gyllideb a chraffu ar wariant i sicrhau gwerth da am arian. Mae aelodau’r corff yn chwarae rôl effeithiol fel ffrindiau beirniadol, tra hefyd yn cynnal a chefnogi’r ysgol yn ei gwaith.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso wedi gwreiddio’n gadarn tros gyfnod yn yr ysgol. Mae arweinwyr wedi dygymod â’r twf sylweddol mewn niferoedd dros y blynyddoedd diwethaf yn hynod lwyddiannus. Mae arweinwyr yn cywain barn holl randdeiliaid yr ysgol yn rheolaidd ac yn rhannu canlyniadau’r gweithdrefnau hyn gyda chymuned yr ysgol. Mae arweinwyr a’r holl staff yn chwarae rhan ganolog wrth graffu ar gynnydd disgyblion ac ar agweddau o’r ddarpariaeth a lles. Maent yn cymryd rhan mewn amrediad cyfoethog o weithgareddau craffu sy’n adnabod agweddau o gryfder ac agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol yn cysylltu’n uniongyrchol â chanfyddiadau’r gweithdrefnau hunanwerthuso. Mae’r blaenoriaethau’n cael eu rhannu’n weithgareddau pwrpasol sy’n cael eu gwerthuso’n ofalus yn unol â cherrig milltir penodol. Mae cyllid priodol yn cael ei ddyrannu i fynd i’r afael â’r blaenoriaethau, ac mae cynnydd yn cael ei werthuso yn ôl meini prawf llwyddiant manwl.

Mae aelodau’r tîm rheoli yn arwain cyd-athrawon a staff mewn timau monitro a datblygiad sy’n craffu’n fanwl ar ddatblygiad gwahanol flaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol. Maent yn gwerthuso cynnydd ac yn argymell addasu blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn os bydd galw. Mae’r grwpiau hyn yn hybu trefn ddeinamig o sicrhau gwelliant parhaus.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod amrediad eang ac effeithiol o weithgareddau datblygu ar gael i holl staff yr ysgol. Mae ganddynt bartneriaethau ag ysgolion yn lleol ac yn rhanbarthol, er mwyn rhannu arfer dda. Darperir amrediad cyfoethog o hyfforddiant i gymorthyddion er mwyn cryfhau cynhwysedd yr ysgol i gynnig gwahanol ymyraethau i gefnogi disgyblion o bob gallu. Mae’r tîm arwain yn hwyluso cyfleoedd i’r staff rannu arbenigedd ac arferion da yn fewnol, o fewn adrannau ac ar draws dosbarthiadau’r gwahanol flynyddoedd. Er enghraifft, maent wedi craffu ar weithgareddau rhesymu rhifedd ar draws yr ysgol i godi eu hymwybyddiaeth yn y maes hwn. Mae’r staff yn defnyddio arbenigeddau unigolion er mwyn cyfoethogi profiadau’r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol adeilad mawr, braf sy’n darparu lleoliad hyfryd ar gyfer y disgyblion. Mae’n cael ei gynnal yn dda a chaiff ei ddefnyddio gan aelodau’r gymuned yn rheolaidd. Mae’r ystod o adnoddau ymarferol da iawn a geir ar draws yr ysgol yn

hybu annibyniaeth y disgyblion yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn llwyddiannus.  Mae rheolwyr yn craffu'n fanwl ar wariant y gyllideb ac mae grantiau, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion, yn cael eu dyrannu a'u defnyddio'n effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/07/2019